

Cymdeithas Gwasanaethau

Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.9 Gwirfoddoli i weithio gydag oedolion a phlant syn agored i niwed



Rhaid i les plant ac oedolion sy'n agored i niwed fod yn brif ystyriaeth unrhyw fudiad gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl o'r fath. Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rôl hanfodol wrth wella bywydau pobl agored i niwed, ond nid yw pob gwirfoddolwr yn addas ar gyfer y math yma o waith, ac ar rai adegau, gallant greu bygythiad. Golyga hyn fod angen gweithredu asesiadau risg ar gyfer gwaith sy'n cynnwys pobl agored i niwed, mabwysiadu arferion gweithio diogel, mynnu recriwtio a dethol da, a defnyddio systemau arolygu cadarn.

Mae'r daflen wybodaeth yma yn darparu cyngor ar sut i ddatblygu arferion gweithio diogel a fydd yn helpu lleihau risg. Mae'n dibynnu ar ganllawiau a chôd ymarfer y llywodraeth yn *Safe From Harm* a *Our Duty To Care*.

1. Mabwysiadu datganiad polisi ar ddiogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'n hanfodol fod mudiadau gwirfoddol yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at ddiogelwch cleientiaid, sy'n cynnwys cymryd camau tuag at greu amgylchfyd ble roddir gwerth ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed ym mhob agwedd.

Elfen o hyn yw cael datganiad polisi ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed a fydd ar gael i bob gwirfoddolwr ac aelod staff yn ystod prosesau dethol, sefydlu a hyfforddi.

2. Datblygu arferion rheoli da

a) Asesiad risg

Bydd arferion rheoli da yn lleihau'n sylweddol y cyfleoedd niweidio pobl yn eich gofal, boed yn gleientiaid neu wirfoddolwyr. Ble bynnag mae gwirfoddolwyr yn gweithio'n uniongyrchol gyda chleientiaid sy'n agored i niwed neu'n ymweld â chartrefi pobl, rhaid i'r mudiadau wneud popeth posib i ddiogelu'r gwirfoddolwyr a'r cleientiaid rhag camdriniaeth, niwed neu golled.

Y dechreubwynt gorau yw ystyried popeth all fynd o'i le, asesu'r debygolïaeth, a chymryd camau rhesymol i rwystro'r broblem.

Dyma rai camau addas:

- gofyn am eirida ar gyfer gwirfoddolwyr;
- sicrhau fod pob gwirfoddolwr a fydd yn gweithio gyda chleientiaid sy'n agored i niwed yn cael cyfweiliad gan weithiwr, gwirfoddolwr neu aelod pwyllgor profiadol;
- gofyn i wirfoddolwyr am euogfarnau blaenorol;
- darganfod cymaint â phosib am y cleientiaid a sicrhau bod y wybodaeth berthnasol gyda'r gwirfoddolwyr;

- sicrhau nad yw gwirfoddolwyr yn mynd i sefyllfaoedd peryglus heb i rywun wybod ble maen nhw, a chael yr awdurdod i weithredu os nad ydynt yn galw mewn neu ddychwelyd ar amser penodol;
- defnyddio rhywun heblaw gwirfoddolwr i wirio gyda chleientiaid os ydynt yn fodlon ac os oes unrhyw broblemau;
- cadw cofnod bob digwyddiad, a'u monitro am ail ddigwyddiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr neu gleientiaid neilltuol;
- codi yswiriant addas i ddiogelu'r mudiad a'i wirfoddolwyr rhag ofn i gleient gael hawliad llwyddiannus am iawndal.

b) Gwiriad heddlu neu beidio?

Rhaid i fudiadau sicrhau llymder a gwyliadwriaeth wrth recriwtio pobl i ardaloedd gwaith sensitif megis gwaith sy'n cynnwys cyswllt aml gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed. Mae Gorchymyn Eithrio Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn goruwchreoli'r hawliau cyflogaeth all cyn-droseddwr ei gael ynghylch collfarnau a ddarfodwyd, er mwyn i gyflogwyr gael gwybodaeth ychwanegol wrth recriwtio ar gyfer rhai 'swyddi eithriedig'. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sy'n dod â'r daliwr swydd i gyswllt a grwpiau sy'n agored i niwed. Ble nodir yn glir ar y ffurflen gais neu mewn cyfweiliad fod y swydd yn eithriedig, bydd rhaid i gyn-droseddwyr ddatgelu gwybodaeth am gollfarnau wedi darfod a'r rhai heb eu darfod.

Bydd lefel y Datgeliad yn ddibynnol ar y safle a wneir a lefel cyswllt y person hwnnw gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed. Mae'n bwysig cofio y dylid rhoi sylw cyfartal i lymder y broses ddethol heb ystyried os yw unigolion yn

gwneud cais am safle gweithiwr neu wirfoddolwr.

3. Datblygu arferion clir

Mae yna rai arferion rheoli penodol y gellwch eu datblygu i godi safonau eich mudiad mewn sawl ffordd, gan gynnwys creu amgylchfyd diogel ac iach.

a) Cynllunio a rheoli gweithgareddau'r mudiad

Dewch i adnabod eich staff a gwirfoddolwyr:

- dilynwch broses recriwtio trylwyr;
- cadwch gofnodion diogel o'r manylion a roddwyd ar adeg y recriwtio;
- mynnwch gynllun gwaith wedi'i arddangos yn glir fel bod pawb yn gwybod pwy sydd ar ddyletswydd;
- cadwch gofnod o unrhyw gwynion am, neu ddigwyddiadau sy'n cynnwys, gwirfoddolwyr.

Cadwch gofnodion megis:

- cofrestr presenoldeb;
- llyfr damweiniau;
- ffurflenni caniatâd / awdurdodi;

4. Mabwysiadu a chymhwyso'n gyson ddull trwyadl a chlir o recriwtio a dethol staff a gwirfoddolwyr

Mae hwn yn cynnwys:

- cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw pobl anaddas yn gweithio gyda phlant;
- ddim yn tybio y gellir eithrio rhai pobl o fynd drwy broses dethol trwyadl;

- ystyried ystod o faterion yn ogystal â diogelu plant rhag niwed.

Rhai pwyntiau i'w hystyried:

- diffinio'r rôl;
- cyhoeddusrwydd recriwtio - datgan yn glir fod angen Datgeliad ble'n berthnasol;
- ffurflen gais – tasgau a ddiffiniwyd yn glir;
- datganiad – dylid gofyn i ymgeiswyr lofnodi datganiad yn dweud nad oes rheswm pam allent fod yn anaddas i weithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed;
- y broses gyfweld - ffocws ar bolisi diogelu plant;
- geirda – yn ysgrifenedig a'u dilyn ar lafar;
- cyfnod prawf;
- cofnodion - dylid cofnodi manylion y broses ddethol.

5. Cefnogaeth ac arolygaeth gwirfoddolwyr

Dylai gwirfoddolwyr mewn unrhyw sefyllfa dderbyn cefnogaeth addas i'w galluogi i wneud y tasgau'n effeithiol a hyderus. Mae cefnogaeth ac arolygaeth ar wahân ond hefyd yn gorgyffwrdd; gwelir y rhain fel cefnogi'r person yn 'berson-ganolog' a'r arolygaeth yn 'waith-ganolog'. Mae'r ddau yn hanfodol wrth reoli risg.

Dylai arolygaeth fod yn strwythuredig a ffurfiol gan ganiatáu adlewyrchiad y gwaith mewn perthynas â'r safonau a'r targedau a gytunwyd eisoes gyda'r gwirfoddolwr. Dylid gorffen pob sesiwn arolygu gyda chynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol. Cadwch gofnodion o faterion a phenderfyniadau a wneir yn ystod arolygaeth, gan y bydd y rhain yn

ddefnyddiol ar gyfer dilyn problemau a chynnydd.

6. Honiadau neu ddrwgdybiaethau cam-drin

Dylid cadw cofnod o unrhyw achos ble gwneir honiad, neu os oes unrhyw un yn eich mudiad yn pryderu. Fel rhan o'r broses sefydlu, dylai pawb yn eich mudiad fod yn ymwybodol o'r person yn y mudiad a ddylid derbyn gwybodaeth am unrhyw broblemau cam-drin ynglŷn â phlentyn / oedolyn sy'n agored i niwed , a sut y gellir cysylltu â'r person hwnnw.

Cyfrinachedd a chyfathrebu gwybodaeth

Wrth rannu gwybodaeth arwyddocaol ac mewn unrhyw ymchwiliad, rhaid i'r asiantaeth weithredu'n ddidwyll, heb falais ac ar y sail fod lles y person sy'n agored i niwed yn hollbwysig. Rhaid i'r unigolyn dan gwestiwn fod yn ymwybodol o'r pryderon, ond rhaid amseru'r rhybudd fel nad amharir ar unrhyw ymchwiliad.

Adrodd ar wybodaeth arwyddocaol o fewn mudiadau

Mae gwybodaeth yn gyfrinachol i unrhyw asiantaeth, ond nid i unigolyn. Rhaid i unrhyw un sydd â gwybodaeth arwyddocaol am ymddygiad unigolyn sydd o bosib yn creu risg i blentyn neu oedolyn agored i niwed rannu'r wybodaeth gyda chydweithiwr perthnasol ar sail 'angen i wybod'.

Gwybodaeth bellach

WCVA CRU

Ffôn: 0800 0197 391

Ffacs: 01745 357593

cru@wcva.org.uk

www.wcva-cru.org.uk

Criminal Records Bureau

www.crb.gov.uk

The National Society for the Prevention
of Cruelty to Children (NSPCC)

www.nspcc.org.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

36-38 Stryd Fawr, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 2DA

Elusen Gofrestredig 1063289

Ffôn: 01437 769422

info@pavs.org.uk

Ffacs: 01437 769431

www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 23/04/2007



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk